OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 753 (Cy. 115)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Treletert, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed	*10 Mawrth 2011*
Yn dod i rym	*17 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain - Abergwaun (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'i wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1.Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Mawrth 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Treletert, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 17 Mawrth 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road"*) yw'r darnau o gefnffordd yr A40, Llundain - Abergwaun, yn Nhreletert yn Sir Benfro a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3.Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1.

4.Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr, ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlenni 1 a 2.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2.

6. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

7. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Treletert, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 40 MYA a 50 MYA) 2002**(3)** yn cael eu hatal mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn yn ystod y cyfnodau hynny pan fydd y cyfyngiadau a bennir yn erthygl 3 a 4 yn weithredol.

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 10 Mawrth 2011

G MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.
(2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru
(3) O.S. 2002/2745 (Cy. 261)

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Hyd a lled y terfynau cyflymder 40 MYA a 10 MYA a'r gwaharddiad ar oddiweddyd

i) Y darn hwnnw o’r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 878 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganlobwynt ei chyffordd â'r B4331, St. David's Road, i bwynt 223 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganlobwynt y gyffordd honno.

ii) Y darn hwnnw o’r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 217 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt chyffordd â'r B4331, St. David's Road, i bwynt 618 o fetrau i'r gogledd- orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

ATODLEN 2

Hyd a lled y terfynau cyflymder 10 mya a'r gwaharddiad ar oddiweddyd

Y darn hwnnw o’r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 233 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4331, St. David's Road, i bwynt 217 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.